**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **17 TACHWEDD 2011** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 HYDREF 2011** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi 2011 hyd at 31 Hydref 2011.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2011:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 18 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Adolygiadau Grant | 2 |
| Archwiliadau Dilyniant | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2011, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol | Addysg | Ysgolion | C | Atodiad 1 |
| Gweinyddu Costau Teithio | Corfforaethol | | B | Atodiad 2 |
| Uned Ymchwiliadau Budd-dal | Cyllid | Archwilio a Risg | B | Atodiad 3 |
| System Taliadau - Trefniadau Rhannu Dyletswyddau | Cyllid | Ariannol | A | Atodiad 4 |
| Treth Cyngor - Adennill a Gorfodaeth | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 5 |
| Treth Di-Annedd - Adennill a Gorfodaeth | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 6 |
| Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Ariannol | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 7 |
| Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Diogelwch | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 8 |
| Gwasanaeth y Crwner | Democratiaeth a Chyfreithiol | Cofrestru | B | Atodiad 9 |
| Cronfa'r Degwm | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | C | Atodiad 10 |
| Digwyddiadau | Economi a Chymuned | Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer | B | Atodiad 11 |
| Technoleg Rhithwir | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 12 |
| Cyllideb y Cynllun Lleoli Oedolion | Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | A | Atodiad 13 |
| Plant - Maethu | Gwasanaethau Cymdeithasol | Plant a Theuluoedd | A | Atodiad 14 |
| Tacograffau a Diogelwch Disel | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | B | Atodiad 15 |
| Casglu data gwastraff | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | C | Atodiad 17 |
| Gwasanaethau Eiddo - Penodi Contractwyr | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Adeiladau ac Amgylcheddol | B | Atodiad 18 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **System Integredig Plant** *(Gwasanaethau Cymdeithasol).* Bwriad y System Integredig Plant (ICS – *Integrated Children's System*) oedd cyflwyno trefniadau ffurfiol o fewn awdurdodau lleol i roi sicrwydd ar drefniadau diogelwch plant bregus. Mae ICS wedi ei adeiladu ar sylfaen y Fframwaith Asesu (2001) a'r Canllawiau Amddiffyn Plant (2002 a 2008). Rhyddhawyd nifer o ddogfennau gan Lywodraethau San Steffan a Chymru sy'n diffinio agweddau ICS.
    - Cyhoeddwyd ICS 1a (WAGC 21/2005) gyda'r disgwyliad y byddai hwn wedi ei weithredu erbyn 31/12/06.
    - Cyhoeddwyd ICS 1b (WAGC 37/2007) er mwyn ei weithredu erbyn 31/12/08.
    - Yna cyhoeddwyd ICS 1c (WAGC23/2008) gan ddisgwyl gweithrediad erbyn 30/04/10.

  Mae canllaw statudol 1c bellach wedi ei ddiddymu yn Lloegr, ond nid yw'r disgwyliadau statudol wedi eu llacio eto yng Nghymru, er bod awdurdodau lleol yn disgwyl arweiniad tebyg gan Lywodraeth Cymru ers Hydref 2010.

  Cyflwynwyd 'Adroddiad cynnydd ar berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol' i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar y 30/11/10 yn egluro pam nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio gydag ICS 1a, er mai'r targed gwreiddiol oedd 31/12/06. O gydnabod safbwynt diffyg gweithredu 1a, eglurwyd na fydd y prosiect ICS yn cyrraedd ei dargedau allweddol i'r cyfnod hwnnw yn sgil agweddau mwy uchelgeisiol ICS 1b a 1c sydd hefyd eto i'w gweithredu. Trafodwyd y sefyllfa parthed adnoddau a'r pwysau sydd ar y gwasanaeth wrth i gyfeiriadau a nifer o blant mewn gofal gynyddu. Yn sgil canlyniad adroddiad "Babi P", derbyniwyd bod newidiadau ar y gorwel a bod disgwyl i brosiect ICS ddod i ben yn ei ffurf bresennol, er nad oes cadarnhad wedi ei dderbyn hyd yn hyn ei fod am gael ei ddiddymu yng Nghymru. Felly gan fod system ICS, yn ddamcaniaethol, i fod i barhau hyd nes cadarnhad ffurfiol ei fod yn dod i ben, ni ellir felly rhoi sicrwydd archwilio ar y rheolaethau mewn lle gan fod elfen fawr o risg yn parhau i berthyn iddo.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru *(Addysg)*
- Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus 2010-11 *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Pwll Nofio Bro Ffestiniog | Darparu a Hamdden | Hamdden | **Anfoddhaol** |
| Asesiadau Risg Tân | Gofal Cwsmer | Eiddo | **Rhagorol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2011**

Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon

Diweddaru'r Wefan

Gorchmynion Ffyrdd

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2012**

Diogelu Data Teledu Cylch Cyfyng

Uned Cludiant Cyhoeddus

Gwirio Dangosyddion Perfformiad

Rheolaeth Ffonau Symudol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2012**

Trefniadau TG i Aelodau

Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2012**

Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2012**

Cronfa'r Degwm

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Tachwedd 2011.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Grant Gwisg Ysgol *(Addysg)*
- System Taliadau - Ardystio a Cywirdeb Codio *(Cyllid)*
- Cynllun Canolfan Rhagoriaeth Eryri *(Economi a Chymuned)*
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Rheolaeth Datblygu - Penderfyniadau Dirprwyedig *(Rheoleiddio)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru *(Addysg)*
- Grant Llwybrau Dysgu 14-19 *(Addysg)*
- Grant Prosiectau Peilot yn Ymwneud ag Ymddygiad a Phresenoldeb *(Addysg)*
- Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol *(Adnoddau Dynol)*
- Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Adfywio Ffisegol yng ngogledd Cymru *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Ysgol yr Hendre *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Cofnodi a Rheoli Salwch *(Corfforaethol)*
- Budd-daliadau - Cinio Ysgol am Ddim *(Cyllid)*
- Budd-daliadau - Lwfans Gwisg Ysgol *(Cyllid)*
- Prif System Gyfrifo *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Cyflogau Misol Gweithwyr Llaw *(Cyllid)*
- Taliadau - Statws Cyflogaeth *(Cyllid)*
- Defnydd Cyfrifiaduron Llaw gan Ofalwyr Cartref *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden *(Darparu a Hamdden)*
- Amgueddfa ac Oriel Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Amgueddfa Lloyd George *(Economi a Chymuned)*
- Manddaliadau *(Gofal Cwsmer)*
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Rheolaeth Prosiect, Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Trefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Dilyniant - Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio)*
- Defnydd Is-Gontractwyr, Uned Darparu Gwaith *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Prosiect Gorfodaeth Amgylcheddol *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi 2011 i 31 Hydref 2011, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# YSGOLION CYNRADD - RHEOLAETH GYLLIDEBOL
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod gan yr ysgolion reolaeth gyllidebol briodol.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar drefniadau cyllidol ysgolion cynradd Gwynedd a sicrhau fod rheolaeth mewnol ddigonol yn bodoli. Archwiliwyd trafodion y flwyddyn ariannol 2010-11 ar gyfer yr ysgolion.

Mae ychydig dros 100 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd ac yn yr archwiliad yma, edrychwyd ar sampl o chwe ysgol. Dewiswyd dwy ysgol o bob ardal o fewn Gwynedd ar gyfer y sampl ac ar sail cyllideb, sef dwy ysgol â chyllideb isel (llai na £150,000), dwy ysgol â chyllideb ganolig (rhwng £150,000 a £250,000) a dwy ysgol â chyllideb uchel (mwy na £250,000).

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, gwelwyd nad oedd rheolaeth fewnol briodol yn bodoli yn yr ysgolion wrth reoli eu cyllidebau. Un gwendid mawr yw'r diffyg trefn briodol o archebu lle nad yw hynny'n bosib ar y system e-gaffael. Gwelwyd fod amryw o nwyddau a gwasanaethau'n cael eu harchebu ar lafar lle nad oedd unrhyw gofnod yn cael ei gadw fel y gellid ei wirio yn erbyn yr anfoneb. Nid oes modd felly sicrhau fod yr anfonebau'n gywir ac i leihau'r risg o daliadau dyblyg. Yn ogystal â hyn, gwelwyd nad oes gan pob ysgol Bolisi Rheolaeth Cyllidol sy'n nodi hawliau'r Pennaeth o safbwynt gwario a throsglwyddo arian rhwng penawdau. Lle mae polisi'n bodoli, nid yw bob amser yn cael ei ddilyn.

'Roedd un achlysur mewn ysgol lle 'roedd y Pennaeth wedi talu anfoneb gydag arian personol ac yna hawlio'r arian yn ôl gan y Cyngor a heb wirio'r anfoneb cyn ei dalu. Ni ddylai hyn ddigwydd ar unrhyw achlysur ac mae angen gwirio pob anfoneb yn erbyn yr archeb cyn ei dalu.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cofnodion o bwyllgorau'r Llywodraethwyr yn nodi'n glir pan fo unrhyw benderfyniad yn cael ei roi, boed yn fabwysiadau cyllid, derbyn unrhyw ddogfen, neu petai'n benderfyniad o roi hawl i Bennaeth wario neu drosglwyddo arian rhwng penawdau. Yn ogystal, dylid anfon copi electronig o gofnodion pwyllgorau'r ysgol i'r Cymhorthydd SIMS.**

- **Dylai pob ysgol lenwi'r holiadur balansau pan fo tan wariant o werth 5% o'r gyllideb neu fwy yn unol â Rheolau Ariannol i Ysgolion a Chyllidebau Dirprwyedig ac i Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth ei lofnodi.**

- **Dylai'r Pennaeth gyflwyno adroddiad ar fonitro'r gyllideb i'r Is-Bwyllgor Cyllid o leiaf unwaith y tymor (neu i'r Corff Llywodraethol lle nad oes Is-Bwyllgor Cyllid).**

- **Dylid sicrhau fod y Corff Llywodraethol yn mabwysiadu cyllideb yr ysgol erbyn 31ain Mai bob blwyddyn a bod hynny'n cael ei nodi'n glir yn y cofnodion.**

# GWEINYDDU COSTAU TEITHIO
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau gweinyddu costau teithio ar draws y Cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a dim dyblygiadau ymdrech.

Cwmpas yr Archwiliad
Er mwyn adolygu'r trefniadau mewn lle ar draws y Cyngor i gyd, teilwrwyd sampl o hawliadau costau teithio o Rhagfyr 2010 a Ionawr 2011 er mwyn sicrhau croestoriad o hawliadau o bob gwasanaeth a phob ardal.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod y ddogfen "Rheoli Teithio - Canllawiau ar gyfer Rheolwyr" wedi ei sefydlu i roi arweiniad i reolwyr llinell o ochr gweithdrefnau disgwyliedig ar gyfer archwilio ac ardystio ffurflenni hawlio costau teithio, ond nid yw'n cyfarwyddo rheolwyr llinell o'r weithdrefn ddisgwyliedig gyda phrosesu'r dogfennau wedi i'r taliad gael ei gymeradwyo.
Yn ein gwaith archwilio, gwelwyd nifer o geisiadau lle 'roedd dyblygu gwaith, ac felly prosesau aneffeithlon, wedi eu sefydlu wrth brosesu'r hawliadau costau teithio er mwyn eu talu. Yn ogystal, gwelwyd rhai ceisiadau yn ein harchwiliad lle nad oedd rheolwyr llinell yn cynnal y gweithdrefnau disgwyliedig yn unol â'r canllawiau yn y ddogfen. Gwelwyd ceisiadau lle 'roedd swyddogion gweinyddol yn cynnal dyletswyddau ar ran y rheolwyr llinell.
Mae'r archwilwyr o'r farn mai sefydlu trefn hunan-wasanaethu yw'r ateb hir-dymor i leihau'r aneffeithlonrwydd drwy liflinio'r broses ac i leddfu'r risgiau o ddogfennau yn cael eu colli. Cydnabyddir fod hyn yn un o'r ystyriaethau pan yn sgopio anghenion ar gyfer system integredig cyflogau ac adnoddau dynol. Hyd nes i hynny gael ei wireddu, mae camau y gellir eu cymryd i wella'r broses presennol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn ngweinyddu costau teithio gan fod rheolaethau mewn lle, ond gwelwyd achosion lle 'roedd y rheolaethau yn cael eu gweithredu ar lefel gormodol gan arwain at ddyblygu ac aneffeithlonrwydd. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai paratoi cyfarwyddyd a'i anfon i reolwyr llinell yn atgoffa am yr angen i gydymffurfio gyda'r canllawiau yn y ddogfen "Rheoli Teithio - Canllawiau ar gyfer Rheolwyr" wrth archwilio ac ardystio ffurflenni hawlio costau teithio swyddogion dan eu gofal.**

- **Dylid cynhyrchu a dosbarthu cyfarwyddyd i reolwyr ar gyfer gweinyddu costau teithio gan gynnwys yr arweiniad:**

  - **Nad oes angen prosesu'r dogfennau ymhellach unwaith mae'r ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo.**

  - **Na ddylai swyddogion derbyn eu ffurflenni costau teithio yn ôl unwaith maent wedi cael eu harchwilio ac ardystio.**

  - **Dylid anfon ffurflenni costau teithio yn uniogyrchol i'r sawl sydd yn eu mewnbynnu os yn bosib.**

# UNED YMCHWILIADAU BUDD-DAL
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod yr Uned Ymchwiliadau Budd-dal wedi gweithredu ar drefniadau dosbarthu cosbau gweinyddol i unigolion yn dilyn twyll budd-dal mewn modd priodol a chywir.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Dewis sampl o unigolion sydd wedi derbyn cosb weinyddol yn y flwyddyn ariannol 2010-11 ac adolygu'r ffeiliau a'r trefniadau i'r penderfyniad dosbarthu cosb weinyddol. Gwirio trefniadau diogelu data yr Uned.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer delio ag ymchwiliadau. Gwelwyd o'r sampl o gosbau gweinyddol a ddetholwyd yn ystod yr archwiliad, bod yr achosion wedi cael eu gweithredu yn briodol. Gwelwyd bod y ffeiliau yn gynhwysfawr h.y. bod digon o dystiolaeth i'w herlyn, bod trefniadau priodol wedi'u dilyn a bod cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. Gwelwyd bod y systemau wedi'u diogelu yn briodol a bod trywydd archwilio yn bodoli yn ogystal â bod yr achosion yn cael eu diweddaru yn rheolaidd. Gwelwyd o'r sampl a archwiliwyd bod yr achosion wedi cael eu cymeradwyo gan swyddog annibynnol a bod swm y gosb weinyddol a gynigir wedi cael eu gweithredu yn gywir gan swyddogion yr Uned Incwm. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oedd y Strategaeth Diogelwch a Gwrth-dwyll (Budd-dal Tai a Threthi) yn gyfredol ac yn adlewyrchu gweithrediadau yr Adran Waith a Phensiynau yn ogystal â diffyg trefniadau addas ar gyfer datgan diddordebau.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth yr Uned Ymchwiliadau Budd-dal gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu a diweddaru'r canllawlyfr/polisi ynghyd â'r Strategaeth Diogelwch a Gwrth-dwyll (Budd-dal Tai a Threthi) er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â gweithrediad yr Uned h.y. polisi'r DWP.**

- **Dylid tynnu sylw at brioldeb ddatgan diddordebau o fewn y Strategaeth Diogelwch a Gwrth-dwyll (Budd-dal Tai a Threthi) diwygiedig mewn perthynas â'r Uned Budd-daliadau yn ogystal â'r Uned Ymchwiliadau Twyll.**

# SYSTEM TALIADAU - TREFNIADAU RHANNU DYLETSWYDDAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau a gweithdrefnau priodol yn eu lle er mwyn sefydlu rhaniad dyletswyddau priodol pan yn talu credydwyr.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu'r rheolaeth a'r trefniadau o fewn yr Uned Taliadau ar gyfer mewnbynnu, gwirio a rhyddhau taliadau i gredydwyr. Ni gynhwyswyd trefniadau prosesu o fewn yr Adrannau Addysg a Darparu & Hamdden yn yr archwiliad gan fod yr adrannau hynny â threfniadau ar wahân i'r trefniadau corfforaethol.

Prif Ddarganfyddiadau
Yn ystod y gwaith archwilio, gwelodd yr archwiliwr fod trefniadau priodol mewn lle yn yr Uned Taliadau ar gyfer prosesu anfonebau, gyda dyletswyddau wedi eu rhannu rhwng swyddogion ar gyfer sypio anfonebau, mewnbynnu manylion, gwirio'r manylion a rhyddhau taliadau i gyflenwyr.
Yn ogystal, gwelodd yr archwiliwr fod yna system ar gyfer adnabod pa ddyletswydd sy'n cael eu cynnal gan swyddogion, gyda'r angen i swyddogion gofnodi pa ddyletswydd maent wedi eu cynnal trwy gofnodi ar ffurflen fandadol sy'n bresennol ar bob swp.
Derbyniodd yr archwiliwr dystiolaeth sy'n dangos fod trefn mewn lle ar gyfer rheoli mynediad swyddogion y Cyngor i'r modiwl taliadau yn y system ariannol. Gwelodd nad oes unrhyw swyddog y tu allan i'r Uned Taliadau gyda'r gallu i fewnbynnu, cynnal newidiadau nac awdurdodi taliadau. Yn ogystal, gwelodd fod mynediad swyddogion yr Uned Taliadau i wahanol sgriniau o fewn y modiwl taliadau yn amrywio, ac yn cyd-fynd gyda'r dyletswyddau maent yn eu cynnal wrth brosesu anfonebau.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau'r System Taliadau - Trefniadau Rhannu Dyletswyddau gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# TRETH CYNGOR - ADENNILL A GORFODAETH
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu, gorfodi ac adennill Treth Cyngor a'u bod yn cydymffurfio â'r Rheolaethau Treth Cyngor (Gweinyddiaeth a Gorfodaeth) 1992 â Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu trefniadau adennill Treth Cyngor. Gwirio sampl o gyfrifon sydd mewn dyled a sicrhau bod y trefniadau adennill wedi eu gweithredu yn briodol a chyfreithiol. Gwirio bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer diogelu mynediad a chofnodion adennill.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Archwiliwyd a dilynwyd sampl o gyfrifon dyledwyr treth cyngor ble bu gweithdrefnau adennill yn eu herbyn, hynny yw sampl oddi ar y rhestr gŵys. O'r sampl a archwiliwyd, gwelwyd bod pob achos wedi cael ei gweithredu yn briodol gan swyddogion adennill. Ymddengys bod gweithdrefnau cadarn mewn lle ynglŷn â chasglu/ddarparu tystiolaeth briodol ar gyfer gwrandawiadau llys, a bod hynny wedi cael ei weithredu yn unol â rheolaethau cyfreithiol adennill. Yn dilyn cais gan y gwasanaeth Treth Cyngor, mae darparwr y system Treth Cyngor wedi sefydlu rhaglen ar gyfer sgorio risg yn erbyn pob cyfrif. Deallir yn y gorffennol, oherwydd bod gymaint o wybodaeth ar y system Treth Cyngor, ei bod yn amhosib adnabod statws er mwyn ei dargedu. Yn dilyn hyn, dangosodd yr Uwch Swyddog Adennill ei fod wedi adnabod y cyfrifon oedd â risg uchel mewn dyled a'u blaenoriaethu drwy ddynodi statws adennill arnynt. Mae hyn yn ymarferiad gwerthfawr er mwyn adennill prydlon ac adnabod cyfrifon â risg uchel sydd ddim wedi'u hadennill.
Fodd bynnag, adnabuwyd bod diffyg yn y trefniadau diogelu data mewn lle o safbwynt trefniadau gyda'r cwmni beili. Yn ogystal, nid yw'r uned yn cynnal gwiriadau/adolygiadau prydlon ar gyfer trefniadau talu drwy atafael enillion oherwydd blaenoriaethau adnoddau. Gwelwyd hefyd nad oedd modd cynnal y cysoniadau ar gyfer derbyn taliadau atafael enillion.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Treth Cyngor - Adennill a Gorfodaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod pob e-bost sydd yn cael eu hanfon i'r beili ac sydd yn cynnwys manylion personol am y trethdalwyr yn cael eu diogelu drwy ymholi'r Uned TG am drefniadau diogelu data e.e. amgryptio.**

- **Dylid sicrhau bod y cwmni beili yn gweithredu i'r un gofynion diogelu e-byst, yn ogystal â sicrhau bod y cwmni beili yn cydymffurfio â chanllaw 1.21 o Gôd Ymddygiad y Beili.**

# TRETH DI-ANNEDD - ADENNILL A GORFODAETH
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu, gorfodi ac adennill trethi annomestig y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio â Rheolaethau Adennill Annomestig 1989 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau adennill trethi annomestig y cyngor. Archwilio sampl o geisiadau trethi annomestig sydd yn berthnasol i drefniadau adennill a sicrhau eu bod wedi cael eu gweithredu yn briodol ac yn gyfreithiol. Gwirio bod y system yn briodol ar gyfer diogelu a rheoli trefn adennill, yn ogystal ag ymholi ynglŷn â pherfformiad yr uned i sicrhau eu bod y drefn adennill yn effeithiol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer adennill dyledion trethi annomestig. Gwiriwyd sampl o drethi annomestig gyda gŵys yn eu herbyn yn y flwyddyn ariannol 2010/11. O'r sampl ymddengys bod pob achos wedi cael ei gweithredu'n brydlon, a gwelwyd bod gweithdrefnau cadarn mewn lle ynglŷn â chasglu/darparu tystiolaeth briodol ar gyfer gwrandawiadau llys a bod hynny wedi cael ei weithredu yn unol â rheolaethau cyfreithiol adennill.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r cwmni beili i drafod trefniadau adfeddiannu a delio a cheisiadau adennill y Cyngor. Gwiriwyd sampl o drethi annomestig ar system y beili a dderbyniwyd dogfennau perthnasol ynglŷn â threthi wedi'u hadfeddiannu. Ymddengys bod y ceisiadau wedi cael eu gweithredu yn unol â'r gyfraith, a bod y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw gamau a gymerir. Yn ogystal, gwelwyd o'r sampl a wiriwyd bod gan y beilïaid system mewn lle ar gyfer mewnbynnu a rhannu gwybodaeth gyda'r Cyngor. Gwelwyd hefyd bod gan y Cyngor fynediad i'r system ac yn medru diweddaru unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan y dyledwyr yn brydlon. Fodd bynnag, darganfuwyd bod yr Uned wedi bod yn anfon manylion personol am geisiadau'r dyledwyr i'r cwmni beili drwy e-bost heb ei diogelu. Yn sgil y darganfyddiad, cynghorir yr Uned i osod rheolaethau ar gyfer anfon gwybodaeth drwy e-bost i'r cwmni beili ynghyd â sicrhau bod y cwmni beili hefyd yn diogelu'r wybodaeth a anfonir i'r Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Treth Di-Annedd - Adennill a Gorfodaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol sydd yn cael eu hanfon i'r beili drwy e-bost yn cael eu diogelu drwy holi'r Uned TG am y mesuriadau mwyaf priodol ar gyfer diogelu e-byst e.e. encryptio, cyfrinair ayb.**

- **Dylid sicrhau bod y cwmni beili yn gweithredu i'r un gofynion diogelu e-byst, yn ogystal â sicrhau bod y cwmni beili yn cydymffurfio â chanllaw 1.21 o Gôd Ymddygiad y Beili.**

## CARTREFI PRESWYL Y CYNGOR - TREFNIADAU ARIANNOL
### Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau ariannol Cartrefi Preswyl y Cyngor yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghfriflyfr 2010/11 a dechrau y flwyddyn ariannol 2011/12.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod engreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau ariannol y Cartrefi Preswyl. Fodd bynnag, ymddengys bod engreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau ariannol cartrefi preswyl y Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen i reolwyr bob Cartref unigol wirio'r gyllideb yn rheolaidd a chesio darganfod y rhesymau dros or-wariant er mwyn dysgu gwersi, a sicrhau nad yw'n digwydd yn y dyfodol.**

- **Dylid gwneud pob ymdrech i gadw o fewn y gyllideb ariannol gan ddefnyddio'r wybodaeth gan y cyfrifydd fel sail i wneud penderfyniadau dros wariant ar wahanol agweddau o'r gyllideb.**

- **Dylid ymdrechu darganfod, drwy ymgynghori gydag Uwch Reolwyr a'r cyfrifwyr, y posibilrwydd o adnabod mannau y gellir lleihau costau yn Plas Ogwen.**

- **Dylid sicrhau bod y Cartrefi yn codi archeb swyddogol cyn yr anfoneb am bob gwaith, nwyddau a gwasanaeth, a phan archebir yn llafar oherwydd brys, rhaid anfon archeb swyddogol ysgrifenedig i gadarnhau hynny yr un diwrnod neu'r diwrnod gwaith canlynol.**

- **Mae angen i'r Cartrefi ffurfioli'r broses o bwy sydd gyda'r hawl i ardystio archebion.**

# CARTREFI PRESWYL Y CYNGOR - TREFNIADAU DIOGELWCH
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau diogelwch Cartrefi Preswyl y Cyngor yn briodol.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio prif feysydd diogelwch y Cartrefi gan wirio am gydymffurfiaeth â chanllawiau'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod engreifftiau o ymarfer da oddi fewn trefniadau diogelwch Cartrefi Preswyl. Fodd bynnag, ymddengys bod engreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau dioglewch ac eiddo'r Cyngor. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau diogelwch cartrefi preswyl y Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen sicrhau bod pob eitem a gedwir i breswylwyr wedi eu cofnodi ar gardiau unigol ac wedi ei arwyddo gan ddau aelod o staff a hefyd sicrhau fod defnyddiwr gwasanaeth a /neu aelod teulu / ffrind yn arwyddo pan fo'r defnyddiwr yn cyrraedd y Cartref. Byddai'n ymarfer da hefyd i nodi ar ffeil personol y preswylwyr pan nad oes eiddo i'w warchod.**

- **Byddai'n ymarfer da cael aelod o staff annibynnol i'r broses i wirio cardiau eiddo'r preswylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gywir a chyfredol. Dylai'r swyddog yma arwyddo a dyddio'r cofnod i gadarnhau bod y gwiriad wedi ei gwblhau, a bod y cofnod yn gyflawn a chyfredol.**

- **Dylid sicrhau bod gan Cartref Hafod Mawddach a Plas Gwilym restr eiddo cyfredol yn unol â Rheol Gweithdrefn Ariannol a bod unrhyw bryniannau diweddar gyda gwerth dros £100 iddo yn cael ei nodi lawr ar y Rhestr eiddo cyfredol.**

- **Dylid sicrhau bod y rhestr eiddo yn cael eu gwirio a'u harwyddo yn flynyddol gan swyddog sydd ddim yn gyfrifol am gadw'r cofnod.**

- **Dylid marcio pob eiddo fyddai'n ddeniadol i unrhyw berson feddwl ei ddwyn fel bod modd ei adnabod fel eiddo'r Cyngor.**

# GWASANAETH Y CRWNER
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau rheolaeth briodol dros weinyddiaeth Gwasanaeth y Crwner a bod unrhyw ad-daliadau sydd yn ddyledus i'r Cyngor yn cael eu hanfonebu'n gywir.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw adolygu trafodion y cyfriflyfr ariannol am y flwyddyn 2010-11 gan gynnwys gwirio anfonebau a broseswyd, cywireb ac amlder ceisiadau ad-daliadau cyfrif imprest, taliadau cyflogaeth a lwfansau ynghyd ag ad-daliadau incwm gan awdurdod arall.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd ar y cyfan bod y trefniadau gweinyddol ar gyfer Gwasanaeth y Crwner yn gweithredu'n foddhaol a bod y Swyddog Gweinyddol wedi sefydlu gweithdrefnau i hwyluso prosesu anfonebau. Gwelwyd bod y Crwner yn derbyn yr uchafswm a ganiateir i gyflogi dirprwy fel y mynegir yng Nghylchlythyr y Crwneriaid a hynny serch y ffaith nad yw'n cyflwyno ceisiadau i gefnogi'r taliadau fel sydd yn ofynnol yn unol â'r Cylchlythyr. Pan amlygwyd hynny gan yr archwiliwr, atebwyd nad yw'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn fodlon derbyn y dylai'r Crwner orfod gwneud ceisiadau am y lwfans; yn hynny o beth, maent yn anghytuno i gydymffurfio â gofynion Cydbwyllgor Negodi y Crwneriaid.
Gwelwyd bod llawer o gyfrifoldeb yn syrthio ar y Swyddog Gweinyddol ac ymddengys nad yw Swyddfa'r Crwner yn cynnal gwiriadau priodol ar yr anfonebau cyn eu hanfon at Cyngor Gwynedd i'w prosesu. Yn ogystal, nid yw Swyddfa'r Crwner yn gweinyddu'r cyfrif imprest yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a gwelwyd y gwneir ad-daliadau ar rai achlysuron heb dystiolaeth i gefnogi'r taliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gwasanaeth y Crwner gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod cyfrifoldebau'n eglur o safbwynt pwy sydd yn gyfrifol am wirio prisiau a'r manylion ar yr anfonebau, h.y. a ddylai'r ddyletswydd fod yn gyfrifoldeb Swyddfa'r Crwner neu Cyngor Gwynedd.**

- **Dylid sicrhau bod y blychau pwrpasol ar y dalen codio gael eu cwblhau gan swyddog priodol. Dylai'r blychau gael eu llofnodi i gadarnhau fod y gwaith a roddwyd neu'r gwasaneth a wnaethpwyd wedi ei gyflawni'n foddhaol, bod y prisiau'n gywir a bod y cyfrif yn rhifyddol gywir. Dylid adolygu'r trefniadau presennol i adlewyrchu'r gofynion hyn.**

- **Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer derbyn a phrosesu anfonebau a dylid atgoffa Swyddfa'r Crwner o bwysigrwydd anfon y dogfennau at y Swyddog Gweinyddol yn brydlon. Gall methiant ar ran Swyddfa'r Crwner adlewyrchu'n negyddol ar y Cyngor os telir credydwyr yn hwyr a gall arwain at dalu llog ar y taliadau hynny.**

- **Dylid derbyn cytundeb y Pennaeth Cyllid i gyflwyno ceisiadau imprest y Crwner yn llai aml nag yn fisol, yn unol â'r gofynion yn Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.16, sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.**

# CRONFA'R DEGWM
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw gwirio bod rheolaeth fewnol ddigonol yn bodoli yn y broses o weinyddu'r Gronfa Degwm.

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar drefniant yr adran o weinyddu'r gronfa a sicrhau bod hyn yn unol â'r gofynion ac yn ogystal yn lliniaru unrhyw risg sydd ynghlwm.

Prif Ddarganfyddiadau
Nododd yr Uwch Swyddog Cist Gwynedd ei bod yn ymwybodol nad oes llawer o drefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu Cronfa'r Degwm ac ei bod yn awyddus i newid hyn ac i sicrhau ei fod yn cael ei weinyddu i safon y cronfeydd eraill. Gwelwyd o'r archwiliad fod angen tynhau ychydig ar y trefniadau o'i weinyddu, megis fod trefniant monitro'n bodoli.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Cronfa'r Degwm gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid derbyn mwy o dystiolaeth gan y cymdeithasau a'r eisteddfodau (megis datganiad banc) gyda'r cais gwreiddiol.**
- **Dylid fod trefn ffurfiol o asesu ceisiadau am arian o'r Gronfa Degwm.**
- **Dylid cadw cofnod o benderfyniad y panel ar ffeil e.e. cofnodion o'r cyfarfod a thaflen wedi ei lofnodi.**
- **Dylid anfon llythyr i ymgeiswyr i nodi os yw eu cais yn llwyddiannus neu beidio.**
- **Dylid sicrhau fod y telerau ac amodau sy'n cael ei redeg o'r bas data yn cyfeirio at y Cronfa Degwm ac nid at y Gronfa Gwella.**
- **Dylid ychwanegu cwestiwn i'r ffurflen gais sy'n gofyn a yw'r ymgeisydd wedi ei gofrestru i hawlio TAW.**
- **Ni ddylid cynnwys yr elfen TAW wrth ystyried taliadau i ymgeiswyr sydd wedi eu cofrestru i hawlio TAW yn ôl.**
- **Dylid sefydlu trefn monitro i sicrhau fod derbynwyr grant yn ymddwyn yn unol â'r gofynion a nodir yn y telerau ac amodau. Dylid hefyd ystyried adolygu'r telerau ac amodau.**

# DIGWYDDIADAU
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Edrych ar drefniadau yr elfen Digwyddiadau o'r Uned Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau fod rheolaeth mewnol digonol yn bodoli ar gyfer trefnu digwyddiadau sylweddol.

Cwmpas yr Archwiliad

Bwriedir edrych ar ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod 2010/11 a sicrhau fod rheolaethau mewnol digonol yn bodoli i liniaru risgiau. Un o'r digwyddiadau mwyaf sylweddol a gynhaliwyd yn y cyfnod hwn oedd y "Penwythnos Mawr" BBC Radio 1 a gynhaliwyd ym mis Mai 2010 a oedd hefyd yn gofyn i'r Cyngor chwarae rhan allweddol yn y trefniadau.

Prif Ddarganfyddiadau

Daeth i'r amlwg o gynnal yr archwiliad yma fod y Tîm Digwyddiadau ynghyd ag unedau eraill o fewn y Cyngor wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau fod digwyddiad y Penwythnos Mawr yn cael ei gynnal ym Mangor a'i wneud yn llwyddiant. 'Roedd gofyn i'r Cyngor weithio ar y cyd, nid yn unig gyda'r BBC, ond gyda grwpiau a sefydliadau eraill i sicrhau fod y trefniadau i gyd yn dod at ei gilydd yn briodol. Gwelwyd fod y nifer o ymwelwyr i wefan twristiaeth y Cyngor wedi codi'n syfrdanol yn dilyn cyhoeddi lleoliad y Penwythnos Mawr ar gyfer 2010.

Y prif ddarganfyddiad o'r archwiliad oedd bod y broses tendro heb ei ddilyn yn gywir; gwelwyd y gwallau canlynol:

- Tendrau wedi eu hanfon yn ôl i'r Swyddog Mentrau Creadigol yn hytrach nag i'r Pennaeth Gwasanaeth.
- Tendrau ddim wedi eu dychwelyd mewn amlen briodol heb farc arno sy'n dangos pwy sydd wedi ei anfon.
- Trefniant cywir o agor y tendrau ddim wedi ei ddilyn.
- Fod tri chwmni wedi ei ddewis i dendro heb fynd trwy'r broses cyn-gymhwyso.
- Tendr ddim wedi ei hysbysebu ar wefan Buy4Wales.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Digwyddiadau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Petai digwyddiad arall lle mae trefniant o gasglu incwm am werthiannau gan gwmnïau eraill, dylid sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei roi gan y cwmnïau hyn o'r hyn a werthwyd e.e. rhifau dilynol y ticedi a werthwyd.**

- **Pan fo arian yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor mewn digwyddiad, dylid sicrhau fod y swyddog cyfrifol yn llofnodi'r taflenni casglu arian a bod y dderbynneb gan y cwmni casglu arian yn cael ei gadw i brofi fod y bagiau perthnasol wedi eu casglu.**

# TECHNOLEG RHITHWIR
## Gofal Cwsmer

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Pwrpas yr archwiliad oedd i adolygu gweithrediad y prosiect technoleg rhithwir.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygwyd gweithredoliant y bensaernïaeth rhithwir, gan gynnwys agweddau o adfer ar ôl trychineb, ac ystyriaethau diogelwch, gan gynnwys breintiau mynediad a chyweirio.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Mae'r archwiliad wedi dod i'r casgliad fod y prosiect technoleg rhithwir wedi cael ei weithredu'n dda gan ddefnyddio caledwedd a meddalwedd i safon y diwydiant, gyda cymorth partner allannol adnabyddus a phrofiadol. Adnabuwyd rhai materion rheolaeth a diogelwch bychain yn ystod yr archwiliad, ond roedd yr adain TG eisoes yn mynd i'r afael â'r rhain. Ni ystyrir fod yr un o'r materion hyn yn risg difrifol i'r prosiect rhithwirio, a gellir eu datrys ar gost bychan, neu dim cost o gwbl.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y prosiect Technoleg Rhithwir. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid gofyn i'r cwmni ddarparu barn dechnegol ar y mater yma ac i gadarnhau os ganddynt gleientau eraill gyda gosodiadau tebyg lle bu modd defnyddio trawsnewidiadau uniongyrchol yn ddidrafferth.**
- **Dylid dod â'r diogelwch ar y gwesteiwyr ESX i'r un safon â'r parth Windows drwy ddefnyddio unrhyw un o dri dull.**
- **Dylid dileu cyfrif cynnal y cwmni o'r Gweinyddwr Parth, a'u diraddio i gyfrif defnyddiwr Windows safonol. Dylid analluogi'r cyfrif pan nad oes ei angen.**
- **Dylid monitro'r logiau o fewn yr isadeiledd rhithwiredig am ddigwyddiadau.**

# CYLLIDEB Y CYNLLUN LLEOLI OEDOLION
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw gwirio trefniadau rheoli cyllidebau'r Cynllun Lleoli Oedolion, o fewn yr Adrannau Darparu a Hamdden a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn lliniaru risg o golled ariannol i'r Cyngor yn ogystal â sicrhau bod atebolrwydd priodol.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau rheoli a monitro cyllidebau'r Cynllun Lleoli Oedolion, drwy wirio gwariant a chyllidebau'r gwasanaeth i'r flwyddyn 2011/12 hyd at Medi 2011.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw nad oes risg materol ychwanegol i'r Cyngor yn deillio o'r faith bod yr Adran Darparu a Hamdden yn gyfrifol am wariant y Cynllun Lleoli Oedolion, sef cyllideb sydd o dan reolaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn gan fod trefniadau dirprwyo ffurfiol wedi'u dilyn yn ogystal â'r ffaith bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn monitro ac yn adrodd ar wariant y gyllideb i swyddogion eu hadran yn fisol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd yn y rheolaethau sydd yn eu lle ar gyfer rheolaeth cyllidebol y Cynllun Lleoli Oedolion. Mae un argymhelliad:**

- **Dylid sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau wrth gymeradwyo anfoneb i'w thalu.**

# PLANT - MAETHU
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaeth briodol oddi fewn y Gwasanaeth Maethu.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad hwn yn dilyn adroddiad archwiliad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGC) yn 2010. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion a sylwadau ynghlyn â'r Gwasanaeth. O ganlyniad mae'r archwiliad hwn yn seiliedig ar yr argymhellion hyn ac ar faterion cyllidebol a thaliadau oddi fewn y Gwasanaeth Maethu.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod engreifftiau cryf o ymarfer da o fewn y trefniadau Gwasnaeth Maethu gyda mân awgrymiadau fel y nodir isod.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y gwasanaeth Maethu gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, mae dau argymhelliad:**

- **Awgrymir y dylai'r Cynorthwywr Gweinyddol gysylltu gyda'r Cyfrifydd i gael adroddiadau cyfredol ar daliadau i Rhieni Maeth yn rheolaidd.**
- **Dylid sicrhau bod ceisiadau lwfansau maethu yn cael eu stampio gyda dyddiad fe'i dderbyniwyd yn y swyddfa, ac yna dylid ei brosesu i'w dalu yn brydlon.**

## TACOGRAFFAU A DIOGELWCH DISEL
### Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli o fewn yr Uned Fflyd i liniaru'r risgiau sy'n ymwneud â defnydd tacograffau a diogelwch tanwydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r broses o weinyddu a defnyddio'r tacograffau o fewn cerbydau Cyngor Gwynedd a sicrhau fod gan y Cyngor reolaethau ataliol ac olrheinied ar gyfer diogelu'r stoc tanwydd.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 13 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 5 o'r meysydd hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd yr Uned Fflyd yn defnyddio'r system TruTac i'w lawn potensial er mwyn sicrhau fod gyrwyr cerbydau perthnasol Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio gyda rheoliadau VOSA.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Tacograffau a Diogelwch Disel gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Fflyd gynhyrchu adroddiadau yn fisol ar ddefnydd y tanwydd ar gyfer pob gwasanaeth sy'n defnyddio'r tanwydd a'u hannog i wirio'r adroddiadau rhag camddefnydd o'r tanwydd.**
- **Dylai'r Gweithdai sicrhau eu bod yn danfon tystysgrifau ymlaen i'r Uned Fflyd fel tystiolaeth fod tacograff y cerbyd perthnasol wedi ei galibro.**
- **Dylai'r Rheolwr Fflyd dderbyn adroddiad "Missing EDR/SDR" o'r system TruTac yn fisol er mwyn sicrhau fod gyrwyr Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio gyda gofynion VOSA o gyflwyno gwybodaeth o'r tacograff.**
- **Dylid defnyddio'r adroddiad "Graduated Penalties Summary" i amlygu'r gyrwyr sydd yn troseddu'n gyson ac i gynnig / mynnu hyfforddiant pellach iddynt.**
- **Dylai'r Rheolwr Fflyd ystyried sefydlu trefn lle mae adroddiadau yn cael eu hanfon yn awtomatig i'r Arweinyddion Timau.**
- **Dylid sicrhau fod y basdata hyfforddiant yn cael ei gynnal a'i gadw'n gyfredol.**

# CASGLU DATA GWASTRAFF
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau cywirdeb dangosyddion perfformiad a data casglu gwastraff Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn sicrhau bod y dangosydd yn adlewyrchu darlun cywir a theg o'r maes dan sylw.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd sicrhau bod dangosyddion perfformiad Gwasanaeth Rheoli Gwastraff Cyngor Gwynedd wedi eu hadrodd yn gywir ar system Ffynnon a Waste Data Flow a bod tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r data. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar ddata ar gyfer mis Mehefin 2011 oedd yn cael ei adrodd fel rhan o ystadegau chwater cyntaf y flwyddyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gan y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Chomisiynu drefniadau priodol ar gyfer casglu, coladu ac adrodd ar ddata gwastraff. Ag eithrio ambell gamgymeriad, roedd y data yn ymddangos yn gywir. Fodd bynnag, roedd rhai risgiau yn bodoli yn y drefn, megis fod y system yn ddibynnol ar un swyddog, ac roedd y drefn yn gwbl ymddiriedol ar gadernid yr wybodaeth a'r dystiolaeth oedd yn cael ei drosglwyddo i'r swyddog gan bartïon eraill er mwyn iddo gyfrifo'r data, a gwelwyd camgymeriadau ac anghysondebau yn y data yma.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau casglu data gwastraff yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen i'r Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol adolygu eu gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei gasglu a'i adrodd ar wastraff yn fwy dibynadwy.**
- **Byddai o fantais i'r Uwch Swyddog Gwastraff/Ailgylchu cwblhau archwiliad rheolaeth ansawdd yn gyfnodol ar systemau Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol gogyfer coladu data gwastraff.**

# RHAGLENNI AROLYGU HYLENDID BWYD, IECHYD A DIOGELWCH
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd er mwyn paratoi rhaglenni arolygu hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch yn briodol ac yn unol â rheolau a safanau'r diwydiant.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio trefniadau'r Gwasanaeth gogyfer paratoi, asesu, gweithredu a chofnodi canlyniadau o raglenni arolygu hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod swyddogaeth hanfodol gan y Gwasanaeth i ddiogelu iechyd y boblogaeth yng Ngwynedd mewn perthynas â bwyd, yn ogystal â sicrhau bod busnesau sy'n gweithredu yng Ngwynedd yn cydymffurfio gyda'u cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch. Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

- Er bod system Flare yn cefnogi swyddogion y Gwasanaeth i wneud archwiliadau mae angen datrys materion o fewn y system i'w chryfhau a'i gwneud yn fwy effeithlon, h.y. ei chydweddu â'r LLPG, sicrhau cywirdeb yr holl ddata, a diweddu'r ddibyniaeth sydd ar un swyddog i'w gweinyddu.
- Nad yw pob archwiliad hylendid bwyd ac archwiliad iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal o fewn yr adeg sydd wedi ei adnabod i'w ymchwilio ar ôl cwblhau asesiad risg ar y busnes.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid symud ymlaen i gydweddu cyfeiriadau busnes ar system Flare gyda'r Local Land and Property Gazetteer fel bod enwau a chyfeiriadau busnesau yn cydymffurfio gydag achrediad BS7666 (2006).**
- **Dylid ystyried cynhyrchu adroddiad wythnosol o Flare sy'n amlygu unrhyw archwiliad rhaglenedig ar eiddo nad sydd wedi eu cynnal.**
- **Dylid sicrhau bod archwiliadau yn cael eu rhaglennu ar fusnesau yn unol â Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008.**
- **Dylid sicrhau bod sgôr risg y cwmnïau wedi eu cyfrifo yn gywir ar Flare, fel bod categori amlder ymyriadau hylendid bwyd yn gywir.**
- **Dylid ystyried os oes angen gosod strwythur rheoli o fewn y Gwasanaeth. Un o'r manteision o hyn fyddai i sicrhau rheolaeth ansawdd o waith hylendid bwyd ac Iechyd a Diogelwch.**
- **Dylid sicrhau bod archwiliadau yn cael eu rhaglennu ar fusnesau yn unol â chanllaw "Advice/Guidance to Local Authorities on Priority Planning (HELA)".**
- **Dylid sicrhau bod busnesau yn derbyn archwiliadau Iechyd a Diogelwch yn unol â'r rhaglen flynyddol osodedig.**

## GWASANAETHAU EIDDO - PENODI CONTRACTWYR
## Ymgynghoriaeth Gwynedd

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod gan y Ymgynghoriaeth Gwynedd drefn o ddethol contractwyr yn effeithiol a thryloyw er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion o gynnal a chadw portffolio eiddo Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Llunnir yr adroddiad drwy edrych ar y drefn pwrcasu contractau gwerth uchel (dros £50,000) a'r trefniadau gogyfer pwrcasu gweithiau bychan (gwaith hyd at £50,000) gan sicrhau bod rheolaeth mewn lle gogyfer comisiynu’r gwaith i gontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 31 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 12 o’r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd posibl rhoi dibyniaeth gyflawn ar drefniadau penodi contractwyr ac nad oes cydymffurfiaeth lawn gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau. Mae Vangaurd ar hyn o bryd yn cynorthwyo adolygiad “System Thinking” ar drefniadau cynnal a chadw eiddo Cyngor Gwynedd. Fe all canlyniadau’r arolwg ddylanwadu ar weithrediad rhai o’r argymhellion yn yr adroddiad hon.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gwasanaethau Eiddo - Penodi Contractwyr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Adran Ymgynghoriaeth adolygu gwerth cronnus y gwaith mae’r contractwyr wedi eu cyflawni mewn blwyddyn ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a Rheolau Caffael Ewrop.**

- **Dylai’r Uned Eiddo ystyried defnyddio fframwaith “North Wales Collaborate Framework Agreement for the provision of Planned Schedule Minor Building Works” neu Buy4Wales er mwyn dewis gontractwyr i gyflawni gwaith i’r Cyngor.**

- **Dylid sicrhau fod asesiad ariannol wedi cael ei wneud ar holl gontractwyr cyn eu bod yn cael eu gwahodd i dendro am waith.**

- **Dylai’r Uned Eiddo sicrhau fod contractwyr sydd i’w gwahodd i dendro am waith wedi cofrestru gyda CHAS neu gyfatebol.**